**EITEM AR YR AGENDA: 13**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**15fed Mehefin 2009**

## ARCHWILIADAU DIOGELWCH TÂN YN Y CARTREF

**Adroddiad gan Richard Fairhead, Uwch Reolwr Diogelwch Tân**

## Diben yr Adroddiad


1 Hysbysu Aelodau o’r cyfanswm o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref gyflwynwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ym mlwyddyn ariannol 2008/2009.

## Cefndir

2 Targed blynyddol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer archwiliadau diogelwch tân yn y cartref yw 30,000. Cyflwynwyd y targed yn dilyn cyhoeddiad Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân i Farwolaethau Tân Damweiniol yn y Cartref yn 2006. Dechreuodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wneud archwiliadau diogelwch tân yn y cartref yn 2001/2002 ac ar amser yr adroddiad, roedd tua 7,500 o archwiliadau yn cael eu gwneud bob gwlyddyn. Bwriad y targed oedd sicrhau fod gan holl gartrefi Gogledd Cymru larwm mwg erbyn 2016.

## Gwybodaeth

3 Fe wnaeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru 31,180 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref yn 2008/2009. Mae hyn yn cynnal y cynnydd yn y nifer o archwiliadau gyflwynwyd yn flynyddol yn dilyn ail ffocysu holl bersonél y gwasanaeth yn dilyn cyhoeddiad adroddiad y Grŵp Gorchwyl.




4 Oherwydd gostyngiad yn y nifer o alwadau brys dderbyniwyd yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn 2008/09, gwnaed arian ychwanegol, £50,000, ar gael gan yr Uwch Reolwr Diogelwch Tan. Defnyddiwyd yr arian i dalu diffoddwyr tân y system dyletswydd rhan amser i wneud archwiliadau diogelwch tân yn y cartref ychwanegol. Fe ddarparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru £20,000 o arian ychwanegol yn gynnar yn 2009 i wneud archwiliadau pellach hefyd. Roedd y cyfanswm o £70,000 yn darparu arian i wneud 5,600 o archwiliadau ychwanegol. Heb yr arian hwn, nid fyddai'r Gwasanaeth wedi cyrraedd targed yr Awdurdod Tân ac Achub i wneud yn agos at 26,000 o archwiliadau, yn debyg i'r swm wnaed yn 2007/08.

5 Dyma'r dadansoddiad o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref yn ôl ardal sir:

| | |
|---|---|
| Conwy | **6084** |
| Sir Ddinbych | **4692** |
| Sir y Fflint | **4761** |
| Gwynedd | **6041** |
| Wrecsam | **4317** |
| Ynys Môn | **5285** |

6 Dyma ddadansoddiad o’r archwiliadau diogelwch tân yn y cartref gan aelodau o’r Gwasanaeth ac asiantaethau eraill:

| | |
|---|---|
| Gorsafoedd Llawn Amser | **15,198** |
| Gorsafoedd y System Dyletswydd Rhan Amser | **3,840** |
| Ymarferwyr y Sir | **5,358** |
| Gweithwyr Cefnogi Diogelwch yn y Cartref | **4,943** |
| Staff eraill | **1,229** |
| Asiantaethau eraill | **612** |

7 Mae’r dadansoddiad uchod yn dangos fod ymrwymiad ac ymgysylltiad gan yr holl staff yn y cyflwyniad o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref ar draws Gogledd Cymru. Bydd y nifer o archwiliadau wnaed gan asiantaethau eraill yn cynyddu yn 2009/2010 oherwydd mwy o waith partneriaeth ar draws holl ardaloedd cyfansoddol Gogledd Cymru.

**Argymhelliad**

8 Fod Aelodau’n nodi cyflawniad y Gwasanaeth wrth ragori ar darged yr Awdurdod Tân ac Achub i gyflwyno archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a’r cynydd yn nifer o archwiliadau sydd wedi eu cwblhau.